

## BYWGRAFFIAD JAMES SMITH

Yn Llundain y ganwyd ac y magwyd James Smith, yn foi East End nodweddiadol - ei dad yn fasnachwr marchnad a'i fam yn yrwr tacsî. Clybiau Gweithwyr, Clwb Pêl-droed West Ham a siopau recordiau Hackney ydi'i bethau. Fe'i magwyd yn bur grwydrol – o leiaf o gwmpas Dwyrain Llundain. Yn Newham y'i ganed ond am ysbaid fer roedd ei deulu'n byw gyda'i Nain mewn bloc cyngor yn Upton Park oedd yn edrych dros Stadiwm West Ham – i'r dim iddo, ac yntau, ar ei gyffes ei hun, yn un o selogion Hammers. Wedyn mudodd i Barking cyn glanio yn Essex.

Drwy gydol ei flynyddoedd yn yr ysgol roedd cerddoriaeth yr hen oes bob amser yn chwilen yn ei ben – mae'n sôn am chwedlau fel Johnny Cash a Bob Dylan yn ddylanwadau mawr ond mewn gwirionedd, meddai, Elvis oedd y gyfaredd fawr (roedd ganddo hyd yn oed gopi o'i dystysgrif geni). Ei wirioni ar Y Brenin barodd iddo ddysgu canu'r gitâr pan oedd yn ddeg oed. Erbyn ei fod yn laslanc, mudferwi oedd ei fopio ar Elvis a throes ei sylw at Stevie Wonder a Paul McCartney a'u tebyg, lle syrthiodd mewn cariad â chelfyddyd cyfansoddi caneuon. O laslanc ifanc, roedd y gerddoriaeth o'r oes o'r blaen oedd at ei ddant yn bur anghyffredin, a'i ffrindiau ysgol gan mwya'n pleidio cerddoriaeth y siartiau. Mae'n addef na châi fawr o groeso pan chwaraeai "Boy Named Sue" gan Johnny Cash mewn partiön.

Pan oedd yn bedair ar ddeg, yn y dirgel anfonodd ei fam gais drosto i fynd ar sioe deledu boblogaidd ITV *Britain's Got Talent*. Rhoes iddo gadarnhâd ei glyweliad yn bresant Dolig. Mae'n cyfaddef ei fod wedi dychryn drwyddo o feddwl am berfformio o flaen miliynau, ond gwelsai beth wnaethai sioeau dawn teledu dros One Direction a Jennifer Hudson a'u tebyg felly dyma benderfynu ymroi i'r profiad a phlymio i gyd cystadlaethau dawn teledu. Ar ôl dal llygad pobl Prydain gweithiodd James ei ffordd drwy'r gystadleuaeth a dod i ben yn un o derfynwyr y sioe. Roedd yn brofiad, meddai, a'i gorfododd i ddod i oed rhag blaen ac a'i helpodd i sylweddoli beth roedd arno'i eisiau gan ei yrfa a'r math o artist roedd am fod.

Ar ôl llofnodi cytundeb â Virgin Records pan oedd yn un ar bymtheg oed, defnyddiodd James ei arian o'r cytundeb i ymgofrestru yn Arts Education School yng Ngorllewin Llundain gan freuddwydio am wneud strôc yn y diwydiant adloniant. Tra oedd yn gwneud sesiynau sgrifennu a chlyweliadau i golegau actio, megis RADA a LAMDA, y sylweddolodd fod rhaid iddo ddod i'r penderfyniad anodd, sef canolbwyntio'n gyfangwbl ar geisio mynd â hi'n gerddor ar ôl graddio o'r coleg. Y cyfnod unig hwnnw ar ôl yr ysgol oedd yr union adeg roes iddo le yn ei ben i sgrifennu cerddoriaeth dda, ac mae'n addef iddo sgrifennu rhai cannoedd o ganeuon yn ystod y cyfnod hwnnw.

Am saith diwrnod yr wythnos mae James yn gweithio ar ei ddeunydd ei hun, yn cynhyrchu i'w gyfoedion cerddorol ac yn beiriannydd ar sesiynau dros y Sul. Mae hefyd yn gweithio ar gynhyrchu i'w gyfoedion cerddorol sydd, meddai, yn llai o bwysau na chreu ei gerddoriaeth ei hun. Hyd yn hyn, bu ganddo resaid o recordiadau llwyddiannus. Cafodd ei EP début "Little Love" o'r flwyddyn 2017 dros saith miliwn o ffrydiadau a daeth llwyddiant tebyg i'w recordiadau diweddaraf. Cafodd "T-shirts" o'r flwyddyn 2018 fwy na phymtheng miliwn o wrandawyr ac mae golwg bod ei sengl newydd "Tell Me That You Love Me" yn dilyn yr un llwybr ac iddi ugain miliwn o ffrydiadau. Mae ei ymagwedd tuag at gerddoriaeth yn ddiddorol ac yn aml mae'n dewis cynhyrchu'r rhan fwyaf o'i gynnyrch cerddorol ei hun. Yn aml mae ei waith yn dwyn ysbrydoliaeth a samplau o hen recordiau mae'n eu cael yn ei siop finyl leol. Chwedl yntau, mae'r "vintage sound" a glywir ar y recordiau bron yn amhosib ei chyflawni heddiw. Y canlyniad yn ei waith ei hun ydi naws sy'n hiraethus ac eto'n gyfoes ac iddi lais neilltuol. Albwm o lawn hyd fydd ei fenter nesaf, y mae'n gobeithio ei ryddhau'r flwyddyn nesaf.